

# DOLEN Y TAB 121

16 - 17 Medi 2022

## Oedfa Sul 18 Medi am 11

Yr oedfa yng ngofal Dr Nathan Munday gyda John Llew yn llywyddu ac Eleri yn cyfeilio.

### YR OEDFAON NESAF

#### Medi

25 Y Parchedig Gethin Rhys gydag Eleri Mai yn llywyddu

#### Hydref

2 Ann ac Emlyn Davies

9 Y Parchedig Aled Edwards gyda'r Parchedig Eirian Rees yn llywyddu.

16 Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni plant yr Ysgol Sul gyda Gwion yn llywyddu.

23 Glenys, Dafydd a Lowri Roberts.

30 Y Parchedig Gethin Rhys

### Hefyd ddydd Sul 18 Medi

#### 12.00 Radio Cymru

Oedfa sgwrs gyda'r gantores gospel Nia Price, Rhosan ar Wy.

#### 12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

#### 19.30 S4C – Dechrau Canu Dechrau Canmol -

Sul Heddwch. Mae Lisa yn ymweld â chanolfan lloches i ffoaduriaid, a chawn glywed sut mae'r cerddor Carwyn Ellis yn helpu'r llai ffodus.

#### E-fwletin Cristnogaeth 21

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

# TWMIAID

DYDD SUL 18FED O FEDI

5 - 6.30

CROESO CYNNES I  
BOBL IFANC BL 7+

## Gorchest Awst

Pan fydd rhywun yn eich holi ymhen blynyddoedd i ddod sut wnaethoch chi oresgyn dyddiau a nosweithiau haf crasboeth 2022, go brin bydd modd i chi gystadlu gyda champ un o drigolion Efail Isaf, sef Jason Edwards. Gosododd her bersonol i gerdded i gopa mynydd y Garth bob un diwrnod yn ystod mis Awst gan goroni'r cyfan drwy wneud hynny ddwywaith ar ddiwrnod olaf y mis.

Ei brif amcan drwy osod yr her oedd codi £1,500 i gynorthwyo'r unigolion hynny o fewn y gymuned sydd mewn angen dybryd. Does dim amheuaeth mai'r hyn a'i hysgogodd yn y lle cyntaf oedd bod yn dyst wrth weithio'n wirfoddoli i gludo nwyddau i bobl anghenus ar ran Capel y Tabernacl. Wedi gweld drosto'i hunan y gwahaniaeth mawr iawn i bobl mewn angen oedd derbyn nwyddau angenrheidiol bob dydd, penderfynodd y byddai'n defnyddio'r amser rhydd oedd ganddo dros yr haf i godi arian er mwyn cefnogi ymgyrchoedd yr eglwys a'i phartneriaid.

Er i'r cerdded ddod i ben mae'r apêl yn parhau ar agor am y tro. Y cyfanswm diweddaraf yw £1,775. Os am gyfrannu at yr apêl gallwch wneud hynny trwy dudalen Facebook yr eglwys neu [gofundme.com](http://gofundme.com). Bydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn defnyddio'r arian fydd wedi ei godi i ddosrannu cymorth yn ôl y galw. Estynnwn ein diolch didwyll i Jason am ei gamp ac am dynnu sylw at y gwaith dyngarol a wneir yn y Tabernacl.



YN GALW  
POBOL IFANC  
BL 5 A 6



# TWMIAID BACH

Dydd Sul 18fed o Fedi

3.30 - 5.00



# Briwsion o'r Bwrdd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn dilyn gwyliau'r haf nos Fawrth diwethaf dan gadeiryddiaeth Edwyn. Isod ceir crynodeb byr o rai o'r materion a drafodwyd.

## Ffrydio'r Oedfaon

Diweddarwyd aelodau'r Bwrdd am y cynllun i uwchraddio'r system o ffrydio oedfaon. Esboniwyd fod problemau wedi codi yn ystod yr haf gyda'r signal bandeang yn y capel. Adroddwyd fod Carwyn Lloyd Jones wedi treulio oriau lawer ar sawl achlysur yn datrys y broblem a chyda cymorth Emlyn Davies gobeithiwn fedru symud ymlaen i gymal nesaf y prosiect yn fuan.

## Prosiect Denman 2022

Derbyniwyd gohebiaeth gan Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, yn llongyfarch y Twmiaid am gyfrannu fideo byr oedd yn rhoi darlun bywiog o'r dathlu yn ardal Efail Isaf yn dilyn cyfnod y pandemig. Thema y prosiect eleni oedd 'Rheswm i ddatlu' a chafodd y cynadleddwyr yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb gyfle i weld ffrwyth gwaith plant a phobl ifanc nifer o eglwysi annibynnol Cymru. Gellir gwyllo fideo'r Twmiaid ar wefan yr Undeb. Llongyfarchwyd y Twmiaid, a diolchwyd i Eleri Mai am ei chyfraniad amhrisiadwy i fywyd yr eglwys dros y flwyddyn.

## Amser yr Oedfa

Codwyd y cwestiwn a ddyliid parhau i gwrdd am 11 ar foreau Sul ynte dychwelyd i'r hen drefn o ddechrau am 10.45, sef y drefn cyn-Covid. Y fam ymhlith aelodau'r Bwrdd oedd y dylid parhau gyda'r drefn newydd a gyflwynwyd nis Medi diwethaf, sef dechrau'r gwasanaethau am 11.

## Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Derbyniwyd adroddiad am barhad y gwaith drwy wyliau'r haf o gasglu a dosbarthu nwyddau i rai oedd yn symud i w cartref eu hunain. Nodwyd hefyd bod £1,540 wedi ei godi ym mis Awst i'r ddau fanc bwyd lleol a chafwyd gwybod bod £2,470 wedi ei godi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol. Talwyd diolch i'r aelodau am eu haelioni.

## Cerrig Beddau

Adroddwyd fod rhai o aelodau Pwyllgor y Meddiannau wedi dechrau ar y gwaith o ofalu bod rhai o'r cerrig beddi simsan yn y fynwent yn cael eu gwneud yn fwy diogel.

## Adroddiad Blynyddol a'r Cyfarfod Blynyddol

Cadamhawyd yr adroddiad am y flwyddyn 2021 gan aelodau'r Bwrdd mewn da bryd i gwrdd â gofyniad statudol i'w gyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau. Caiff copïau o'r adroddiad eu ddosbarthu i'r aelodau cyn cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fore Sul 27 Tachwedd.

## Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 11 Hydref.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)